Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 16/2025

Dyddiad Cyhoeddi: 17/02/2025

# Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol iechyd, a llesiant (Atodiad A: offerynnau ymchwil)

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-318-3

Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant (Atodiad A: offerynnau ymchwil)

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Angela Endicott
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru
ISBN: 978-1-83715-318-3
© Hawlfraint y Goron 2025

## Cynnwys

Cynnwys.......................................................................................................... 1
Canllaw trafod 1: Partneriaid Cyflawni'r Prosiect........................................................ 2
Canllaw trafod 2: Swyddogion Llywodraeth Cymru .................................................... 6
Canllaw trafod 3: Astudiaeth achos – cynrychiolwyr o sefydliadau partner .............. 10
Canllaw trafod 4: Astudiaeth achos – cynrychiolydd o CDC..................................... 14
Canllaw trafod 5: Astudiaeth achos – gwirfoddolwyr a chyfranogwyr ....................... 16
Canllaw trafod 6: Ymyriadau thematig CDC ............................................................. 19
Arolwg ar gyfer Aelodau Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru......**Error! Bookmark not defined.**

## Canllaw trafod 1: Partneriaid Cyflawni'r Prosiect

### A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich rôl o fewn CDC / unrhyw newidiadau i'ch rôl ers i ni siarad ddiwethaf [yn haf 2021]?

### B: Nodau a chylch gwaith

2. Beth fu'r prif newidiadau i raglen CDC dros y tair blynedd diwethaf (ers hydref 2021)?
3. Pa effaith y mae’r ffactorau allanol canlynol wedi’i chael ar y rhaglen dros y tair blynedd diwethaf?
    - Trafodaethau ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a oedd yn cynnwys bwriad i dorri'r cyllid i 1 filiwn (er na ddigwyddodd hynny)? Pa effaith a gafodd y trafodaethau hyn ar ddarpariaethau'r rhaglen a strwythur staffio'r rhaglen?
    - Unrhyw ffactorau allanol eraill e.e. yr argyfwng costau byw?
4. Pa ddogfennau polisi a dogfennau strategol a gyhoeddwyd dros y tair blynedd diwethaf (os o gwbl) sydd wedi dylanwadu ar raglen CDC?
    - Sut y mae'r rhaglen yn cyfrannu tuag atynt?
5. [Staff Cwmpas yn unig] Ym mha ffordd y mae canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau a baratowyd yn 2021 wedi cael eu hystyried gan y rhaglen?
    - Sut y mae CDC wedi cefnogi gweithredu strategaethau digidol fel y rhai a ddisgrifir gan fyrddau iechyd yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig; a gwaith y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal?
    - Ym mha ffordd y gwnaeth CDC ymgysylltu â'r sector preifat (hyd at fis Rhagfyr 2023 pan ddilewyd yr elfen hon o'r rhaglen)?
    - Sut y mae CDC wedi gweithio gyda chyrff ambarél cenedlaethol a chyrff aelodaeth yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?
    - Sut y mae CDC wedi myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o fenthyg cyfarpar yn ystod y pandemig, a'r angen i wneud hynny dim ond fel rhan o becyn cymorth ehangach i sefydliadau ac unigolion?
    - Sut y mae CDC wedi gwneud cynnydd tuag at gyflwyno rhaglen gyfunol o hyfforddiant digidol?
6. [Staff Cwmpas yn unig] Ym mha ffordd y mae'r argymhellion yn yr adroddiad blynyddol (2023) wedi cael eu gweithredu gan y rhaglen?

- Sut y mae’r rhaglen yn sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar gefnogi staff o’r sector iechyd a gofal cymdeithasol i hybu eu cyfranogiad?
- Sut y mae’r rhaglen wedi lleihau ei ffocws ar recriwtio gwirfoddolwyr?
- Sut y mae’r rhaglen wedi nodi sut y bydd yn ymgysylltu’n well â sefydliadau’r sector preifat?
- Sut y mae'r rhaglen wedi gwella cysondeb y data canlyniadau a adroddir yn ei hadroddiadau chwarterol?

## C: Gweithredu

7. Pa mor effeithiol yw model cyflawni CDC?
    - Holwch am bartneriaeth, staffio, rheolwyr, trefniadau adrodd ac ati
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw fodel yn y dyfodol?
8. Pa mor dda, neu beidio, y mae CDC wedi ymgysylltu â'r buddiolwyr yn y pedwar grŵp targed[1]?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw ymyriad yn y dyfodol i dargedu'r rhain?
9. Pa mor dda, neu beidio, y mae CDC wedi ymgysylltu â sefydliadau partner, gan gynnwys byrddau iechyd?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw ymyriad yn y dyfodol i dargedu'r rhain?
10. Pa mor effeithiol fu gweithgareddau cyfathrebu a marchnata CDC dros y tair blynedd diwethaf?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw ymyriad yn y dyfodol?

## D. Y gefnogaeth a ddarparwyd

11. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y gefnogaeth a'r cyngor a ddarparwyd i sefydliadau ers mis Medi 2021?
    - Beth sydd wedi mynd yn dda?
    - Pa heriau a gododd?

[1] Pobl hŷn 50+; pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol

12. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd i sefydliadau (a/neu i gyfranogwyr) ers mis Medi 2021?

    - Beth sydd wedi mynd yn dda?
    - Pa heriau a gododd?

13. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y ffrydiau gwaith / mentrau eraill a gyflwynwyd gan CDC ers mis Medi 2021?

    Holwch am:

    - Y meysydd gwaith thematig newydd a gyflwynwyd yn 2024 e.e. gwaith gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, pobl anabl, interniaethau â thâl
    - Mentrau penodol fel Cynlluniau Ymgynghori Digidol, rhaglenni gwirfoddoli Cyfeillion Digidol a Hyrwyddwyr Digidol, cyrsiau Learn My Way

14. I ba raddau y cafodd y mentrau hyn eu croesawu gan y sefydliadau targed?

    - Holwch am lefel yr ymgysylltu yn ôl math o sefydliad (sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector)
    - Holwch am ymgysylltiad a barn gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

## E. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

15. [Cwmpas a Phrifysgol Abertawe] I ba raddau y mae CCDC wedi ystyried yr argymhellion a gynigiwyd yn y gwerthusiad interim o'r broses a'r chanlyniadau?

    - Sut y mae CCDC wedi canolbwyntio ar nifer llai o flaenoriaethau allweddol er mwyn dangos ei gwerth?
    - Sut y mae CCDC wedi ymestyn ei haelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth ehangach yn enwedig o sefydliadau iechyd, y Gymraeg a Chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol?

16. [Cwmpas a Phrifysgol Abertawe] Pa wahaniaeth y mae CCDC wedi'i wneud?

    - Beth oedd prif gyflawniadau'r gynghrair?
    - Pa wahaniaeth y mae wedi’i wneud i'r aelodau ac i’r agenda cynhwysiant digidol ehangach?

17. [Cwmpas a Phrifysgol Abertawe] Pa mor gynaliadwy yw CCDC ar ôl i gyllid CDC ddod i ben?

    - Pa gynlluniau sydd ar waith i gynnal gwaith CCDC yn y dyfodol? Sut y bydd hyn yn cael ei gyllido?

## F. Y gwahaniaeth a wnaed

18. [Staff Cwmpas] Pa dystiolaeth sydd gennych bod CDC yn gwneud gwahaniaeth i sefydliadau iechyd sy'n sefydlu ac yn gweithredu arferion a pholisïau cynhwysiant digidol?
    - Pa enghreifftiau y gallwch chi eu rhoi lle mae hyn wedi digwydd yn effeithiol?
    - Pa ffactorau sy’n galluogi cynhwysiant digidol i fod yn rhan annatod o waith cynllunio a chyflawni sefydliadau partner?
19. [Staff Cwmpas] Pa dystiolaeth sydd gennych o’r gwahaniaeth y mae CDC wedi ei wneud i wella sgiliau a chymhwysedd digidol ar draws gweithlu darparwyr iechyd a gofal?
    - Pa enghreifftiau y gallwch chi eu rhoi lle mae hyn wedi digwydd yn effeithiol?
    - Pa ffactorau sy'n arwain at wella llythrennedd digidol a sgiliau digidol ar draws y lleoliadau hyn?
20. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC wedi'i wneud i gyfranogwyr:
    - Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau?
    - Iechyd a llesiant?
    - Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## G. Perfformiad CDC

21. A yw CDC wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion gwreiddiol? Pam ydych chi'n dweud hyn?
22. [Staff Cwmpas yn unig] Beth sy'n cyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu wan yn erbyn DPA a chanlyniadau CDC?
23. [Staff Cwmpas yn unig] A yw CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw danwariant neu orwariant?

## H. Y dyfodol

24. Beth ydych chi'n ei ystyried yw'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, ar ôl i CDC ddod i ben?
25. Beth yw'r gwersi allweddol i'w hystyried mewn unrhyw fenter/rhaglen gyllido yn y dyfodol?

## Canllaw trafod 2: Swyddogion Llywodraeth Cymru

### A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich rôl / unrhyw newidiadau i'ch rôl ers i ni siarad ddiwethaf [yn haf 2021]?
    - [Fel y bo'n briodol] Ym mha ffordd ydych chi'n ymwneud â CDC?

### B: Nodau a chylch gwaith

2. Beth fu'r prif newidiadau i raglen CDC dros y tair blynedd diwethaf, ers hydref 2021?
3. Pa effaith y mae'r ffactorau allanol canlynol wedi'i chael ar y rhaglen dros y tair blynedd diwethaf?
    - Trafodaethau ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a oedd yn cynnwys bwriad i dorri'r cyllid i 1 filiwn (er na ddigwyddodd hynny)? Pa effaith a gafodd y trafodaethau hyn ar ddarpariaethau'r rhaglen a strwythur staffio'r rhaglen?
    - Unrhyw ffactorau allanol eraill e.e. yr argyfwng costau byw?
4. Pa ddogfennau polisi a strategaethau a gyhoeddwyd dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi dylanwadu ar raglen CDC?
    - Sut y mae'r rhaglen yn cyfrannu tuag atynt?
5. Ym mha ffordd y mae canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau a baratowyd yn 2021 wedi cael eu hystyried gan y rhaglen?
    - Sut y mae CDC wedi cefnogi gweithredu strategaethau digidol fel y rhai a ddisgrifir gan fyrddau iechyd yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig; a gwaith y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal?
    - Ym mha ffordd y gwnaeth CDC ymgysylltu â'r sector preifat (hyd at fis Rhagfyr 2023 pan ddilewyd yr elfen hon o'r rhaglen)?
    - Sut y mae CDC wedi gweithio gyda chyrff ambarél cenedlaethol a chyrff aelodaeth yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?
    - Sut y mae CDC wedi myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o fenthyg cyfarpar yn ystod y pandemig, a'r angen i wneud hynny dim ond fel rhan o becyn cymorth ehangach i sefydliadau ac unigolion?
    - Sut y mae CDC wedi gwneud cynnydd tuag at gyflwyno rhaglen gyfunol o ddarpariaeth hyfforddiant digidol?
6. Ym mha ffordd y mae'r argymhellion yn yr adroddiad blynyddol (2023) wedi cael eu gweithredu gan y rhaglen?

- Sut y mae’r rhaglen yn sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar gefnogi staff o’r sector iechyd a gofal cymdeithasol i hybu eu cyfranogiad?
- A yw'r rhaglen wedi lleihau ei ffocws ar recriwtio gwirfoddolwyr?
- A yw'r rhaglen wedi nodi sut y bydd yn ymgysylltu’n well â sefydliadau’r sector preifat?
- A yw'r rhaglen wedi gwella cysondeb y data canlyniadau a adroddir yn ei hadroddiadau chwarterol?

## C: Gweithredu

7. Pa mor effeithiol yw model cyflawni CDC?
    - Holwch am bartneriaeth, staffio, rheolwyr, trefniadau adrodd ac ati
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw fodel yn y dyfodol?
8. Pa mor dda, neu beidio, y mae CDC wedi ymgysylltu â'r buddiolwyr yn y pedwar grŵp targed[2]?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw ymyriad yn y dyfodol i dargedu'r rhain?
9. Pa mor dda, neu beidio, y mae CDC wedi ymgysylltu â sefydliadau partner, gan gynnwys byrddau iechyd?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw ymyriad yn y dyfodol i dargedu'r rhain?
10. **Pa mor effeithiol fu gweithgareddau cyfathrebu a marchnata CDC dros y tair blynedd diwethaf?**
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa wersi y dylid eu hystyried mewn unrhyw ymyriad yn y dyfodol?

## D. Y gefnogaeth a ddarparwyd

11. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y gefnogaeth a'r cyngor a ddarparwyd i sefydliadau ers mis Medi 2021?
    - Beth sydd wedi mynd yn dda?

---

[2] Pobl hŷn 50+; pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol

- Pa heriau a gododd?

12. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd i sefydliadau (a/neu i gyfranogwyr) ers mis Medi 2021?

    - Beth sydd wedi mynd yn dda?
    - Pa heriau a gododd?

13. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y ffrydiau gwaith / mentrau eraill a gyflwynwyd gan CDC ers mis Medi 2021?

    Holwch am:

    - Y meysydd gwaith thematig newydd a gyflwynwyd yn 2024 e.e. gwaith gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, pobl anabl, interniaethau â thâl
    - Mentrau penodol fel Cynlluniau Ymgynghori Digidol, rhaglenni gwirfoddoli Cyfeillion Digidol a Hyrwyddwyr Digidol, cyrsiau Learn My Way

14. I ba raddau y cafodd y mentrau hyn eu croesawu gan y sefydliadau targed?

    - Holwch am lefel yr ymgysylltu yn ôl math o sefydliad (sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector)
    - Holwch am ymgysylltiad a barn gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

## E. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

15. I ba raddau y mae CCDC wedi ystyried yr argymhellion a gynigiwyd yn y gwerthusiad interim a chanlyniadau?

    - A yw CCDC wedi canolbwyntio ar nifer llai o flaenoriaethau allweddol er mwyn dangos ei gwerth?
    - A yw CCDC wedi ymestyn ei haelodaeth i sefydliadau a oedd yn cael eu tangynrychioli ar y pryd, yn arbennig o blith y meysydd iechyd, y Gymraeg a Chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?

16. Pa wahaniaeth mae CCDC wedi'i wneud?

    - Beth oedd prif gyflawniadau'r gynghrair?
    - Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r aelodau ac i'r agenda cynhwysiant digidol ehangach?

17. Pa mor gynaliadwy yw CCDC ar ôl cyllid CDC?

    - Pa gynlluniau sydd ar waith i gynnal gwaith CCDC yn y dyfodol? Sut y bydd hyn yn cael ei gyllido?

## F. Y gwahaniaeth a wnaed

18. Pa dystiolaeth sydd gennych bod CDC yn gwneud gwahaniaeth i sefydliadau iechyd sy'n sefydlu ac yn gweithredu arferion a pholisïau cynhwysiant digidol?
    - Holwch am enghreifftiau lle mae hyn wedi digwydd yn effeithiol
    - Pa ffactorau sy’n galluogi cynhwysiant digidol i fod yn rhan annatod o waith cynllunio a chyflawni sefydliadau partner?
19. Pa dystiolaeth sydd gennych o’r gwahaniaeth y mae CDC wedi ei wneud i wella sgiliau a chymhwysedd digidol ar draws gweithlu darparwyr iechyd a gofal?
    - Holwch am enghreifftiau lle mae hyn wedi digwydd yn effeithiol
    - Pa ffactorau sy'n arwain at wella llythrennedd digidol a sgiliau digidol ar draws y lleoliadau hyn?
20. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC wedi'i wneud i gyfranogwyr:
    - Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
    - Iechyd a llesiant
    - Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## G. Perfformiad CDC

21. A yw CDC wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion gwreiddiol? Pam ydych chi'n dweud hyn?
22. Beth sy'n cyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu wan yn erbyn DPA a chanlyniadau CDC?
23. A yw CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw danwariant neu orwariant?

## H. Y dyfodol

24. Beth ydych chi'n ei ystyried yw'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, ar ôl i CDC ddod i ben?
25. Beth yw'r gwersi allweddol i'w hystyried mewn unrhyw fenter/rhaglen gyllido yn y dyfodol?

## Canllaw trafod 3: Astudiaeth achos – cynrychiolwyr o sefydliadau partner

### A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf
    - Eich rôl / unrhyw newidiadau i'ch rôl ers i ni siarad ddiwethaf
    - [Yn ôl yr angen] Eich sefydliad
    - Eich cysylltiad â CDC [dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf]

2. Dywedwch wrthyf
    - Ddull gweithredu ac amcanion eich sefydliad mewn perthynas â chynhwysiant digidol, a sut mae hyn wedi datblygu/newid dros amser
    - I ba raddau y mae cynhwysiant digidol wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad (e.e. mewn cynlluniau corfforaethol, cyfrifoldeb ar lefel uwch/bwrdd)
    - A oes gan eich sefydliad strategaeth ddigidol, a sut y mae hyn yn cael ei roi ar waith
    - Pwy sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

### B: Ymwneud â CDC

3. [Fel y bo'n briodol] Pam wnaeth eich sefydliad ymwneud â'r rhaglen CDC?
    - Sut y daeth eich sefydliad i glywed am / ymwneud â CDC?
    - Pa faterion neu flaenoriaethau, os o gwbl, oeddech chi'n gobeithio y byddai CDC yn helpu eich sefydliad i fynd i'r afael â nhw?
    - Ym mha ffordd yr oeddech chi'n disgwyl i CDC eich helpu i fynd i'r afael â'r materion/blaenoriaethau hyn?
4. Sut y mae darpar dderbynyddion (fel defnyddwyr, gwirfoddolwyr a staff eich sefydliad) yn dod yn ymwybodol o'r rhaglen?
    - Pa mor effeithiol yw'r dull hwn?
    - Beth yw cryfderau'r dull hwn?
    - Sut y gellid gwella'r dull hwn?
5. Beth yw proffil y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau CDC yn eich sefydliad chi?
    - I ba raddau y maent yn adlewyrchu pedwar grŵp targed allweddol y rhaglen (pobl hŷn 50+; y rhai o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol)?

- Beth sy'n gweithio'n dda wrth ymgysylltu â'r grwpiau targed hyn?
- Beth ellid ei wneud yn wahanol i wella ymgysylltiad y grwpiau hyn?

6. Beth yw eich barn am weithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo CDC i sefydliadau targed a defnyddwyr terfynol?
    - Beth fyddech chi'n ei nodi fel cryfderau?
    - Beth y gellid ei wella neu ei newid?

## C: Y gwasanaethau a ddefnyddiwyd

7. Pa gymorth, cyngor a/neu hyfforddiant y mae eich sefydliad wedi'u cael gan CDC [dros y tair blynedd diwethaf]?
    - Beth oedd natur y cymorth, y cyngor neu'r hyfforddiant hwn?
    - Sut y cafodd ei ddarparu?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    - Pa heriau ddaethoch chi ar eu traws?
    - Ym mha ffordd y mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad cyfan?
8. Beth yw eich barn am ansawdd a pherthnasedd y cymorth/hyfforddiant a gawsoch drwy'r rhaglen CDC?
    - Beth fu cryfderau'r ddarpariaeth?
    - Beth y gellid ei wella?
9. I ba raddau yr ydych wedi ymwneud, os o gwbl, â'r ffrydiau gwaith / mentrau canlynol a gyflwynwyd gan Cwmpas a'i bartneriaid cyflawni fel rhan o CDC [dros y tair blynedd diwethaf]?

    Gofynnwch am eu hymwneud â'r mentrau canlynol a chryfderau/gwendidau pob un ohonynt:

    - Y meysydd gwaith thematig newydd a gyflwynwyd yn 2024 e.e. gwaith gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, pobl anabl, interniaethau â thâl
    - Mentrau penodol fel Cynlluniau Ymgynghori Digidol, rhaglenni gwirfoddoli Cyfeillion Digidol a Hyrwyddwyr Digidol, cyrsiau Learn My Way
10. Pa effaith barhaus, os o gwbl, y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar eich ymwneud â CDC?

## Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

11. A yw eich sefydliad wedi cael unrhyw gysylltiad â Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru? Os felly,

    - Sut y buodd eich sefydliad yn ymwneud â'r gynghrair?
    - Beth yw eich barn am yr hyn y mae CCDC wedi'i gyflawni?
    - Ym mha ffordd y mae eich sefydliad yn elwa o fod yn rhan o CCDC?
    - Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i CCDC ar gyfer y dyfodol?

## E. Y gwahaniaeth a wnaed

12. Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae ymwneud â CDC wedi'i wneud i'ch sefydliad?

    - Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r ffordd y mae eich sefydliad yn cynllunio ei wasanaethau (gan gynnwys unrhyw strategaethau a dulliau gweithredu cynhwysiant digidol)?
    - Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r gwasanaethau a ddarperir gan eich sefydliad?
    - Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r ffordd y mae cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad?
    - Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i bwy sy'n ymwneud â chynllunio a darparu cynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

13. Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae ymwneud â CDC wedi'i wneud i wella sgiliau a chymhwysedd llythrennedd digidol ar draws eich gweithlu?

    - Pa ffactorau sydd wedi arwain at wella llythrennedd digidol a sgiliau digidol ar draws eich gweithlu?

14. Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich ymwneud â CDC wedi'i wneud i'ch cyfranogwyr o ran:

    - Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
    - Iechyd a llesiant
    - Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## F. Y dyfodol

15. Beth yw blaenoriaethau cynhwysiant digidol eich sefydliad ar gyfer y dyfodol agos?

    - Pa gymorth/hyfforddiant y mae eich sefydliad yn debygol o fod ei angen dros y blynyddoedd nesaf?

16. Beth yw'r prif bwyntiau dysgu sy'n dod i'r amlwg gan CDC y mae angen eu hystyried mewn unrhyw ymyriad tebyg a ariennir?

## Canllaw trafod 4: Astudiaeth achos – cynrychiolydd o CDC

### A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf
    - Eich rôl a sut yr ydych wedi bod yn ymwneud â'r sefydliad sy'n rhan o'r astudiaeth achos

### B: Gwasanaethau a ddarperir

2. Ym mha ffordd yr ydych wedi cefnogi a chynghori y sefydliad sy'n rhan o'r astudiaeth achos?
    - Beth fu natur unrhyw gymorth a chyngor?
    - A wnaeth y sefydliad gymryd rhan mewn arolwg sgiliau digidol hanfodol?
    - Pa faterion oedd y sefydliad yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
    - Sut y cafodd ei ddarparu?
    - Beth sydd wedi mynd yn dda?
    - Pa heriau a gododd?
3. Pa hyfforddiant a oedd ar gael i'r sefydliad sy'n rhan o'r astudiaeth achos?
    - Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn?
    - Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r hyfforddiant?
    - Beth sydd wedi mynd yn dda?
    - Ym mha ffordd y mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad cyfan?
4. Pa gysylltiad, os o gwbl, y mae sefydliad yr astudiaeth achos wedi'i gael gyda'r ffrydiau gwaith / mentrau canlynol a ddarperir gan CDC?

    Gofynnwch am eu hymwneud â'r mentrau canlynol a chryfderau/gwendidau pob un ohonynt:

    - Y meysydd gwaith thematig newydd a gyflwynwyd yn 2024 e.e. gwaith gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, pobl anabl, interniaethau â thâl
    - Mentrau penodol fel Cynlluniau Ymgynghori Digidol, rhaglenni gwirfoddoli Cyfeillion Digidol a Hyrwyddwyr Digidol, cyrsiau Learn My Way

### C. Y gwahaniaeth a wnaed

5. Pa wahaniaeth y mae CDC wedi'i wneud…?

- i'r ffordd y mae'r sefydliad yn cynllunio gwasanaethau (gan gynnwys unrhyw strategaethau a dulliau gweithredu ar gynhwysiant digidol)?
- i'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad?
- i'r ffordd y mae cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad?
- i bwy sy'n ymwneud â chynllunio a darparu cynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

6. Sut y mae CDC wedi gwneud gwahaniaeth i wella sgiliau a chymhwysedd llythrennedd digidol ar draws y gweithlu?
7. Sut y mae CDC wedi gwneud gwahaniaeth i:
    - Sgiliau digidol, sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
    - Iechyd a llesiant
    - Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## D. Y dyfodol

8. Pa gymorth neu hyfforddiant cynhwysiant digidol pellach y mae'r sefydliad sy'n rhan o'r astudiaeth achos yn debygol o fod ei angen ar ôl i CDC ddod i ben?

## Canllaw trafod 5: Astudiaeth achos – gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

### A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf

   - Amdanoch chi eich hun (gwaith, diddordebau, teulu, p’un a yw’r cyfranogwr yn perthyn i un o’r pedwar grŵp targed – pobl hŷn 50+; pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar a di-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol)
   - Sut ydych chi wedi bod yn ymwneud â'r sefydliad sy'n rhan o'r astudiaeth achos (ers pryd, y rheswm dros ymgysylltu â nhw ac ati)
   - Eich ymwneud â gweithgaredd digidol yn y gorffennol (e.e. pa dechnoleg gwybodaeth oeddech chi'n ei defnyddio/oeddech chi’n gyfarwydd â hi, at ba ddibenion yr oeddech chi'n defnyddio cyfarpar TG/digidol, unrhyw waith gwirfoddoli blaenorol)

### B: Ymwneud â CDC

2. Pam wnaethoch chi gymryd rhan yn y rhaglen CDC? [eglurwch beth y gallai hyn fod wedi'i olygu e.e. sesiynau digidol, hyfforddiant ac ati a defnyddiwch y derminoleg hon drwyddi draw]

   - Beth oeddech chi’n gobeithio ei gyflawni drwy'r rhaglen [fel cyfranogwr/gwirfoddolwr]?
   - Sut y daethoch i glywed am y rhaglen/cyfle?

### C: Y gwasanaethau a ddefnyddiwyd

3. Ym mha ffordd yr ydych chi wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen CDC?

   - Beth fu natur unrhyw gymorth a chyngor a gafwyd/rannwyd?
   - Beth fu natur unrhyw hyfforddiant a gafwyd/rannwyd?
   - Holwch am hyd, dull (rhithwir/wyneb-yn-wyneb), pwy oedd yn ei ddarparu (mudiad neu dîm CDC), pa gyfarpar a ddefnyddiwyd ac ati.

4. Sut ydych chi wedi elwa/beth ydych chi wedi'i ddysgu o'ch ymwneud â'r rhaglen CDC?

   - Pa sgiliau neu wybodaeth newydd ydych chi wedi'u hennill/rhannu?
   - {Cyfranogwyr} Ydych chi wedi defnyddio'r sgiliau neu'r wybodaeth newydd hyn mewn unrhyw ffordd ers hynny?

- {Cyfranogwyr} Pa gymwysterau ydych chi wedi'u hennill?
- Ydych chi wedi rhannu unrhyw sgiliau neu wybodaeth newydd ag eraill?

5. Beth yw eich barn am ansawdd a pherthnasedd unrhyw gymorth a hyfforddiant a gawsoch?
    - Beth yw eich barn am ansawdd a gwybodaeth yr ymgynghorydd/hyfforddwr?
    - Beth sydd wedi mynd yn dda?
    - Beth y gellid ei wella?

## D. Y gwahaniaeth a wnaed

6. [I gyfranogwyr] Sut y mae ymwneud â'r rhaglen wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran:
    - Dysgu sgiliau digidol sy'n berthnasol i'ch gwaith a'ch bywyd:
        - Pa sgiliau newydd ydych chi wedi'u dysgu?
        - Sut ydych chi'n defnyddio'r sgiliau newydd hyn yn eich gwaith a'ch bywydau bob dydd?
    - Eich iechyd a'ch llesiant
        - Ym mha ffordd y mae eich ymwneud â’r rhaglen wedi helpu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a llesiant yn ddigidol?
        - neu wedi eich helpu i reoli eich iechyd yn well gan ddefnyddio technoleg?
    - Eich teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol:
        - Ym mha ffordd y mae eich ymwneud â’r rhaglen wedi eich helpu i gysylltu â ffrindiau a theulu gan ddefnyddio technoleg?

7. [I wirfoddolwyr] Ym mha ffordd yr ydych wedi elwa o gymryd rhan fel gwirfoddolwr ar y rhaglen?
8. [I wirfoddolwyr] Pa wahaniaeth y mae'r rhaglen wedi'i wneud, os o gwbl, i gyfranogwyr yr ydych wedi bod yn eu cefnogi/gweithio gyda nhw? Holwch am wahaniaethau i sgiliau digidol, iechyd a llesiant ac unigrwydd/ynysigrwydd cymdeithasol

## E. Y dyfodol

9. [Cyfranogwyr] Pa gymorth/hyfforddiant digidol pellach yr hoffech ei gael yn y dyfodol? Ym mha ffordd y byddai'r cymorth neu'r hyfforddiant hwnnw'n eich helpu yn y dyfodol?

10. [Gwirfoddolwyr] A ydych yn bwriadu parhau i wirfoddoli gyda'r mudiad yn y dyfodol? Os felly, ym mha ffordd? Pa gymorth/hyfforddiant digidol pellach yr hoffech ei gael yn y dyfodol?

## Canllaw trafod 6: Ymyriadau thematig CDC

### A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich rôl a sut yr ydych wedi ymwneud ag un (neu fwy) o ymyriadau thematig canlynol CDC:
   - Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
   - Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
   - Pobl anabl
   - Interniaethau â thâl

### B: Natur yr ymyriad

2. Dywedwch wrthyf am y prif ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r ymyriad?
   - Sut y digwyddodd yr ymyriad? Pa faterion yr oedd yr ymyriad yn ceisio eu datrys?
   - Sut y cafodd ei ddarparu?
   - Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma ac i bwy?
   - Beth sydd wedi mynd yn dda?
   - Pa heriau a gododd?

### C. Y gwahaniaeth a wnaed

3. Sut y mae'r ymyriad hwn wedi gwneud gwahaniaeth i gyfranogwyr a defnyddwyr…?
   - Sgiliau digidol, sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
   - Iechyd a llesiant
   - Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?
4. Sut y mae'r ymyriad hwn wedi gwneud gwahaniaeth i sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill…?
   - Arferion a pholisïau cynhwysiant digidol
   - Sgiliau llythrennedd digidol a chymhwysedd eu gweithlu

### D. Y dyfodol

5. Pa gynlluniau sydd ar waith i barhau i ddarparu'r ymyriad thematig hwn:
   - rhwng nawr a diwedd y prosiect

- ar ôl i'r rhaglen CDC ddod i ben

## Arolwg ar gyfer Aelodau Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

Mae Ymchwil OB3 yn cynnal gwerthusiad o raglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, rydym yn dymuno casglu adborth wrth aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (y Gynghrair) a byddem yn ddiolchgar petai modd ichi gwblhau'r holiadur cryno hwn ar yr elfen yma o'r rhaglen.

Mae eich cyfranogiad i'r arolwg hwn yn gwbl wirfoddol a bydd eich ymatebion yn cael eu hystyried yn gyfrinachol. Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir yn ddienw ac ni fydd yn cael ei briodoli mewn unrhyw ffordd i chi neu eich busnes/sefydliad. Ceir rhagor o fanylion am yr astudiaeth a sut y byddwn yn defnyddio eich adborth yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn: ob3.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-dcw-arolwg-dia

**Q1: Pa un o'r sectorau canlynol ydych chi'n ei gynrychioli/gweithio ynddo?**

- ❑ Y sector cyhoeddus
- ❑ Y sector preifat
- ❑ Trydydd sector
- ❑ Sector academaidd
- ❑ Arall

**Nodwch y sector arall hwn:**

**Q2: Ym mha ffordd ydych chi'n ymwneud â'r Gynghrair?**

[Nodwch y ddau os yn berthnasol]

- ❑ Aelod o Rwydwaith y Gynghrair
- ❑ Aelod o'r Grŵp Llywio

**Q3:** [Wedi ei gyfeirio o Q2] **Pa mor aml ydych chi wedi mynychu cyfarfodydd y Gynghrair dros y flwyddyn ddiwethaf?**

| | Pob un | Mwyafrif | Rhai | Dim un |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Rhwydwaith y Gynghrair | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfarfodydd y Grŵp Llywio | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**Q4: Sut fyddech chi'n graddio aelodaeth y Gynghrair o ran:**

| | Yn dda iawn | Yn weddol dda | Ddim yn arbennig o dda | Ddim yn dda o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrywiaeth sefydliadau sy'n aelodau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynrychiolaeth y sector iechyd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynrychiolaeth y sector gofal | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Defnyddiwch y gofod hwn i ychwanegu unrhyw sylwadau am aelodaeth y Gynghrair:

**Q5: Beth, os o gwbl, ydych chi (neu eich sefydliad) yn ei gael yn ddefnyddiol am fod yn aelod o'r Gynghrair?**

[Dewiswch pob opsiwn perthnasol]

- ❑ Cael mynediad at arferion da cynhwysiant digidol
- ❑ Rhannu profiadau gydag eraill
- ❑ Ehangu eich mewnwelediad am gynhwysiant digidol mewn sectorau eraill
- ❑ Clywed gan siaradwyr ac arbenigwyr allanol
- ❑ Cymryd rhan mewn dadleuon am faterion cynhwysiant digidol
- ❑ Ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru perthnasol
- ❑ Arall

Nodwch os gwelwch yn dda, beth arall sy'n ddefnyddiol i chi am fod yn aelod o'r Gynghrair?

**Q6: Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n aelodau o'r Gynghrair fabwysiadu Siarter Cynhwysiant Digidol Cymunedau Digidol Cymru.**

**A yw eich sefydliad wedi mabwysiadu'r siarter hon?**

- ❑ Do
- ❑ Ddim eto, rydym yn gweithio arno
- ❑ Nac ydi, nid ydym eto wedi dechrau gweithio arno
- ❑ Ddim yn gwybod

**Q7:** [Os Q6=1] **Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae mabwysiadu'r siarter wedi'i wneud i'ch sefydliad?**

**Q8: At ei gilydd, faint o werth ydych chi'n ei osod ar y Gynghrair fel mecanwaith ar gyfer gwneud Cymru yn genedl ddigidol gynhwysol?**

- ❑ Gwerth sylweddol
- ❑ Ychydig o werth
- ❑ Dim llawer o werth
- ❑ Dim gwerth o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**Q9: Pa gyfraniad mae'r Gynghrair wedi'i wneud hyd yma tuag at wireddu ei bum blaenoriaeth allweddol?**

| | Cyfraniad sylweddol | Ychydig o gyfraniad | Dim llawer o gyfraniad | Dim cyfraniad o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgorfforri cynhwysiant digidol ar draws pob sector | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Prif ffrydio cynhwysiant digidol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mynd i'r afael â thlodi data | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Blaenoriaethu sgiliau digidol hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd yn yr economi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gweithredu safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**Q10: Beth fyddech chi'n ei nodi fel prif gyflawniadau'r Gynghrair?**

**Q11: A ydych chi'n credu y dylai'r Gynghrair barhau wedi i gyfnod cyllido presennol Cymunedau Digidol Cymru ddod i ben ym mis Mehefin 2025?**

- ❑ Ydw
- ❑ Na
- ❑ Ansicr

**Q12: Beth, os o gwbl, dylid newid neu wella am y Gynghrair i'r dyfodol?**

**Q13: Beth, os o gwbl, fyddech chi'n ei nodi fel blaenoriaethau'r Gynghrair i'r dyfodol?**